Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyflwr yr Ystad

Effeithlonrwydd a pherfformiad amgylcheddol ystad weinyddol Llywodraeth Cymru 2024-2025.












# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** 3

1.1 Astudiaeth Achos 4

1.2 Yr Ystad Weinyddol 6

**2. Perfformiad yr Ystad** 7

2.1 Effeithlonrwydd 7

2.2 Maint a Chostau Rhedeg 8

**3. Effeithlonrwydd Amgylcheddol** 9

3.1 Ynni 9

3.2 Gwastraff 10

3.3 Dŵr 10

3.4 Perfformiad Amgylcheddol 10

3.5 Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos 11

**4. Edrych i'r Dyfodol** 12

**Tudalen cyn yr Atodiadau**

**Atodiad 1:**
Data allweddol ar gyfer swyddfeydd yr Ystad Weinyddol ar 31 Mawrth 2025

**Atodiad 2:**
Data allweddol ar gyfer y swyddfeydd â thenantiaid yn yr Ystad Weinyddol

**Atodiad 3:**
Arbedion a gafwyd o eiddo a adawyd 2020-2025

**Atodiad 4:**
Crynodeb o Berfformiad 2020-2025

**Atodiad 5:**
Crynodeb o Berfformiad Eiddo Arbenigol yr Ystad


OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53691, ISBN digidol 978-1-83745-334-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# 1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i ystad o swyddfeydd ar wasgar ledled Cymru, gan gefnogi economi gryfach a thecach, a galluogi staff i weithio'n hyblyg.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i gyfyngu i adrodd ar feincnodau allweddol ar gyfer perfformiad amgylcheddol a chost ledled yr ystad.

Mae Strategaeth 10 mlynedd Gweithle'r Dyfodol (2020-2030) yn nodi fframwaith o egwyddorion lefel uchel i lunio cynlluniau ar gyfer y dyfodol, er mwyn sicrhau'r cysondeb strategol, y perfformiad o ran ansawdd, a'r defnydd gorau posibl o'r Ystad Weinyddol. Mae hyn yn adlewyrchu'r angen i ddarparu gofod sy'n addas ar gyfer ffyrdd newydd, hyblyg a chydweithredol o weithio, ac i ddefnyddio ein gofod busnes mewn ffordd wahanol. Gyda 50% o staff Llywodraeth Cymru yn gweithio o bell, mae yn gosod y safon ar gyfer cynllunio gofod sy'n cynnwys 5 gweithfan i bob 10 aelod o staff. Ategir hyn gan angen cynyddol am ofod gweithio cydweithredol ac ymdrech tuag at 'Un Ystad Gyhoeddus' a nodweddir gan gydweithio â'n partneriaid yn y sector cyhoeddus i gyd-leoli. Ein nod fu gwneud y gorau o'n hystad drwy gynyddu nifer y gofodau â thenantiaid i'r lefel orau bosibl er mwyn gallu cydweithio gymaint â phosibl â'n partneriaid yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, i a ddarparu refeniw, gan wneud yr ystad yn fwy fforddiadwy.

Mae canolbwyntio ar gefnogi canol trefi, trafnidiaeth gyhoeddus a chynaliadwy, a chynaliadwyedd ein hadeiladau yn parhau i fod yn sbardunau allweddol ar gyfer llunio ystad y dyfodol. Mae ein heffaith amgylcheddol yn parhau i fod yn flaenoriaeth, ac rydym yn parhau i fuddsoddi mewn technolegau cynaliadwy i leihau ein dibyniaeth ar danwyddau ffosil, lleihau gwastraff a gwella bioamrywiaeth. Mae ymgorffori dulliau hyblyg o weithio i ddarparu ar gyfer polisïau a thueddiadau sy'n galluogi patrymau gweithio mwy cyfunol yn awgrymu bod angen math gwahanol o ofod swyddfa.

Serch hynny, bydd cyfyngiadau ariannol yn parhau i fod yn sbardun allweddol ar gyfer penderfyniadau.

Bydd opsiynau i adolygu lleoliad swyddfeydd yn parhau i gynnwys staff ac Undebau Llafur mewn dadansoddiad manwl o'r costau a'r manteision, wrth i gyfleoedd godi.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r data perfformiad amgylcheddol ac effeithlonrwydd allweddol ac yn cymharu'r rhain â ffigurau cyfatebol ar gyfer y strategaeth flaenorol.

Dyma'r dangosyddion allweddol:

| | |
|---|---|
| Maint a chostau rhedeg yr ystad | Rhent[1]<br>Ardrethi Busnes<br>Costau Eraill |
| Effeithlonrwydd y gweithle | £ fesul swydd gyfwerth ag amser llawn (FTE)<br>Metrau sgwâr (m sg) fesul FTE |
| Perfformiad Ynni fel Tystysgrif Ynni i'w Harddangos (DEC) | |
| Perfformiad amgylcheddol ar gyfer allyriadau $CO_2$; cynhyrchu gwastraff ac ailgylchu, a defnyddio dŵr. | |

Mae'r ffigurau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn rhoi cipolwg ar effeithlonrwydd y swyddfeydd gweithredol craidd oedd yn yr ystad ar 31 Mawrth 2025. Mae'r swyddfeydd hyn yn cael yn cael eu nodi yn Atodiad 1.

Mae eiddo arbenigol wedi'u heithrio o'r ffigurau effeithlonrwydd costau sydd ym mhrif gorff yr adroddiad. Mae manylion yr eiddo arbenigol hyn ar gael yn Atodiad 5.

1 Codir rhent tybiannol ar swyddfeydd rhydd-ddaliadol. Adolygwyd rhenti ar 31 Mawrth 2020.

## 1.1 Astudiaeth Achos – Cynefino Tenantiaid Sector Cyhoeddus Cymru – 2024-25

Roedd ein model gweithio hybrid a'n hymrwymiad i ddarparu swyddfeydd sy'n addas ar gyfer ffyrdd hyblyg a chydweithredol newydd o weithio wedi ein galluogi i gynnig mwy o ofod swyddfa i denantiaid o sector cyhoeddus Cymru. Mae'r angen i lenwi gofod swyddfa gwag sy'n cael ei greu o ganlyniad i'r cynnydd mewn dull gweithio o bell a fabwysiadwyd ar ôl COVID-19 yn cynnig manteision i Lywodraeth Cymru ac i denantiaid sy'n dod i mewn:

Y Manteision Allweddol

- Arbedion o ran costau
- Mwy o hyblygrwydd
- Cyfleoedd i rwydweithio a chydweithio
- Gostyngiad yn allyriadau carbon Llywodraeth Cymru
- Hyblygrwydd telerau les neu drwydded sy'n ei gwneud yn fwy deniadol i denantiaid preswyl
- Mae amgylcheddau cydweithredol yn meithrin ymdeimlad o gymuned ac yn lleihau nifer y desgiau gwag

Dyma dri lleoliad sydd wedi llwyddo i dderbyn tenantiaid yn ystod y flwyddyn:

**Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno**

Mae Cyffordd Llandudno wedi bod yn llwyddiant arbennig, a thrwy gael preswylwyr ychwanegol yn ystod 2024-2025 mae tua 18% o'r gofod a oedd yn cael ei danddefnyddio bellach yn cael ei ddefnyddio gan sefydliadau'r sector cyhoeddus.

**Parc Cathays, Caerdydd**

Cafodd gwaith ei wneud ar y 4ydd llawr yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24, a oedd yn golygu bod modd i 5 sefydliad tenant ymuno â'r adeilad i feddiannu'r gofod ochr yn ochr â phreswylwyr eraill ar y llawr 1af. Mae'r 6 chorff cyhoeddus hyn bellach yn llenwi dros 11% o gyfanswm gofod swyddfa'r adeilad.

**Rhodfa Padarn, Aberystwyth**

Ymunodd preswylydd arall â'r tri tenant presennol yn ystod 2024-25, gyda chyd-dddeiliadaeth bellach yn cyfrif am 13% o gyfanswm y gofod swyddfa yn yr adeilad.

**Themâu cyffredin**

Bu staff yr adran gyfleusterau yn y tair swyddfa yn gweithio'n agos â'r tenantiaid ac roeddent yn croesawu rhannu swyddfeydd ar draws pob adeilad. Roedd yn hanfodol sicrhau bod perthynas waith dda yn cael ei sefydlu o'r cychwyn cyntaf, er mwyn sicrhau bod tenantiaid yn teimlo eu bod yn cael croeso a'u bod yn gyfforddus yn eu swyddfa newydd. Ymgysylltwyd yn gynnar cyn symud, er mwyn gefnogi'r broses o symud preswylwyr i bob safle. A darparodd yr Adran Gyfleusterau sesiynau cynefino i'r holl staff ar y diwrnod cyntaf. Darparwyd Llawlyfrau Tenantiaid hefyd ar gyfer tenantiaid newydd ym Mharc Cathays, yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad allweddol ar drefniadau'r adeilad a'r gwasanaethau gweithredol o ddydd i ddydd ar draws y safleoedd. Bu'r adran Gyfleusterau hefyd yn gweithio'n agos â chydweithwyr TG i sicrhau bod gofynion TG tenantiaid yn cael eu bodloni cyn iddynt symud i mewn. Roedd gweithio yn y dull cydweithredol hwn, gyda chefnogaeth ymgynghorwyr Ystadau, yn galluogi tenantiaid sy'n dod i mewn i bontio'n ddidrafferth ar yr un pryd â tharfu cyn lleied â phosibl ar breswylwyr eraill ar bob safle.

**Heriau a Chyfleoedd**

Lle bo angen, ail-gyfluniwyd gofod swyddfa ar gost tenantiaid i gyd-fynd â gofynion penodol, a symudwyd dodrefn gan fod tenantiaid yn ffafrio eu heitemau eu hunain. Roedd hyn yn cynnig cyfleoedd i ailddefnyddio dodrefn mewn swyddfeydd eraill yn yr ystad, a hefyd, lle bo'n briodol, i gynnig eitemau nad oedd mo'u hangen i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus, gan ddileu costau gwaredu ac arbed miloedd o bunnoedd i'r sector cyhoeddus drwy ailddefnyddio.

**Y Dyfodol**

Mae cyfleoedd i gydweithio rhagor â thenantiaid y sector cyhoeddus ar draws yr Ystad Weinyddol yn parhau, gyda rhagor o denantiaid yn mynd i gael eu croesawu i bob safle yn 2025-26. Bydd hyn yn cael ei fonitro i sicrhau cydbwysedd er mwyn sicrhau'r defnydd gorau posibl o adeiladau er budd tenantiaid a hefyd er mwyn staff Llywodraeth Cymru sy'n dymuno dychwelyd i weithio yn y swyddfa fel rhan o fodel gweithio hybrid modern mwy newydd.

## 1.2 Yr Ystad Weinyddol

Roedd yr Ystad yn darparu 68,669 metr sgwâr o ofod gweithio a chyfarfod, sy'n fodern ac yn hyblyg ar gyfer 5,736 o staff, tenantiaid a chontractwyr cyfwerth ag amser llawn, rhwng 1 Ebrill 2024-31 Mawrth 2025.

Mae'r 15 swyddfa yn cynnwys prif ganolfannau Parc Cathays Caerdydd, Rhyd-y-Car Merthyr Tudful, Rhodfa Padarn Aberystwyth a Sarn Mynach Cyffordd Llandudno. Mae swyddfeydd ac adeiladau eraill wedi'u lleoli ledled Cymru i sicrhau presenoldeb gwasgaredig ac i sicrhau bod modd darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion busnes (Ffigur 1).

Mae'r data ategol wedi'u nodi mewn Atodiadau i'r adroddiad:

**Atodiad 1:** Data allweddol ar gyfer swyddfeydd yr Ystad Weinyddol ar 31 Mawrth 2025.

**Atodiad 2:** Data allweddol ar gyfer swyddfeydd â thenantiaid ynddynt yn yr Ystad Weinyddol.

**Atodiad 3:** Arbedion a gafwyd o eiddo a adawyd 2020-2025.

**Atodiad 4:** Crynodeb o Berfformiad 2020-2025.

**Atodiad 5:** Crynodeb o Berfformiad Eiddo Arbenigol yr Ystad.

## Ffigur 1: Lleoliad Swyddfeydd yr Ystad Weinyddol



# 2. Perfformiad yr Ystad

Parhaodd y rhan fwyaf o'r staff i weithio o bell yn ystod 2024-2025. Y dystiolaeth yw bod cyfran uwch yn gwneud hynny'n rheolaidd. Mae ffigurau perfformiad yn seiliedig ar y dybiaeth bod yr holl staff a chontractwyr yn gweithio o'u lleoliad cytundebol drwy gydol y flwyddyn.

## 2.1 Effeithlonrwydd

Mae Bloc C yn Heol Picton, Caerfyrddin, wedi cael ei osod yn llwyddiannus ar sail Lesddaliad Hir i denantiaid sector cyhoeddus Cymru. Mae'r ardal yn cael ei pharatoi i ddarparu preswyliaeth i'r tenantiaid ym mis Ionawr 2026.

Yn gyffredinol, roedd maint yr Ystad Weinyddol graidd yn dal yn 68,669 metr sgwâr, ond mae mwy o ofod wedi cael ei osod i bartneriaid y sector cyhoeddus eleni, gan leihau cyfran yr ystad sy'n cael ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r angen i wasgaru staff ledled Cymru yn cynnig cyfleoedd i weithio'n rhanbarthol ac opsiynau i ganfod y 'maint cywir' yn cael eu hystyried drwy ddatblygu achosion busnes, arfarnu buddsoddiadau ac ymgynghori â Staff ac Undebau Llafur wrth i gyfleoedd fel cymalau terfynu neu derfynu lesoedd godi. Roedd hyn yn wir am y swyddfa yn Nhŷ'r Afon, Bedwas a adawyd ar ôl i'w les ddod i ben ym mis Hydref 2024, gyda staff yn symud i swyddfeydd Parc Cathays a Merthyr. Wrth i arferion gweithio hyblyg gael eu gwreiddio fwyfwy a dod yn arferion gweithio cyffredin, bydd mwy o gyfleoedd i gael arbedion effeithlonrwydd.

Mae cyfleoedd i gyd-leoli, naill ai drwy osod gofod dros ben neu drwy adleoli sefydliadau Llywodraeth Cymru mewn adeiladau cyhoeddus eraill, yn parhau i gael eu harchwilio. Cynyddodd y diddordeb gan ddarpar breswylwyr yn ein prif hybiau yn ystod blwyddyn ariannol 2024-2025 a pharhau i gynyddu y mae hynny.

Mae'r broses o resymoli cynlluniau wedi'i chynnal ar gymhareb o 5 gweithwr FTE i bob 10 gweithfan, ac 8 metr sgwâr i bob gweithfan.

Mae'r ffigurau perfformiad allweddol ar gyfer yr ystad yn ei chyfanrwydd wedi'u nodi isod. Mae dadansoddiad fesul adeilad ar gael yn Atodiad 1.

## 2.2 Maint a Chostau Rhedeg

| | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2025 | Newid 31 Mawrth 2024-2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflwr yr Ystad** | | | | | |
| Cyfanswm Arwynebedd yr Ystad m sg | 68,669 | 68,669 | 68,669 | 68,669 | 0% |
| Nifer yr Eiddo | 15 | 15 | 15 | 15 | 0% |
| Cost yr Ystad (miliynau) | £18.80 | £18.95 | £19.08 | £18.88 | -1% |

| | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2025 | Newid 31 Mawrth 2024-2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Effeithlonrwydd** | | | | | |
| Cost fesul metr sgwâr | 273.90 | 275.98 | 358.06 | 274.95 | -23% |

# 3. Effeithlonrwydd Amgylcheddol

Mae'r newid mewn patrymau gweithio a ddaeth yn sgil y pandemig yn dal i gael effaith ar y defnydd o wasanaethau cyn covid a'r gwastraff a gynhyrchir, gan gynnwys yr hyn sydd ar gael i'w ailgylchu. Mae maint y gwastraff i ynni wedi cynyddu, tra bo maint y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi wedi lleihau. Cynhyrchir llai o garbon a defnyddir llai o nwy ar draws yr ystad. Hefyd, mae trydan adnewyddadwy wedi cael ei ymestyn i 5 swyddfa ar draws yr ystad, sydd wedi helpu i leihau'r defnydd o drydan yn gyffredinol. Bydd hyn yn cael ei ymestyn rhagor ar draws yr ystad y flwyddyn nesaf.

## 3.1 Ynni

Yn 2024-2025, fe wnaethom ni barhau i ddidynnu'r ganran honno o gyfanswm ein hallyriadau carbon a'n defnydd o gyfleustodau a ddefnyddir gan ein tenantiaid, gan fod yn rhaid iddyn nhw adrodd ar eu cyfansymiau eu hunain ar wahân. Mae cyfanswm yr allyriadau hyn yn cynrychioli allyriadau trydan Cwmpas 1 a Chwmpas 2

- Gostyngiad o **6%** yng nghanran gros yr allyriadau tCO2e o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Cynnydd o **6%** yn y defnydd o drydan o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Gostyngiad o **21%** yn y defnydd o nwy o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol am yr ail flwyddyn yn olynol.
- Cynhyrchwyd **493 mwh** o drydan adnewyddadwy ar y safle ym mhump o swyddfeydd yr ystad o baneli solar ffotofoltaidd ar y to.
- Mae mesurau arbed ynni, a ddechreuwyd ym mis Tachwedd 2022, yn parhau i sicrhau arbedion ynni gyda **756mwh** yn cael ei arbed rhwng mis Tachwedd 2024 a mis Mawrth 2025, o'i gymharu â'r un cyfnod cyn cyflwyno'r mesurau.
- Llwyddwyd hefyd i wrthbwyso **£120k** o'i gymharu â'r un cyfnod cyn cyflwyno'r mesurau.

Roedd penderfyniad Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2024 i ddychwelyd i ddefnyddio aer wedi'i ailgylchredeg, a oedd wedi bod yn digwydd ers y pandemig, wedi helpu i sicrhau blwyddyn lawn o arbedion ynni drwy ddefnyddio llai o nwy.

## 3.2 Gwastraff

- Cynyddodd gwastraff 56%, o 215 tunnell yn 2023-2024 i 94 tunnell yn ystod 2024-2025. Eglurir hyn gan y ffaith fod yr angen i resymoli gofod swyddfa, er mwyn gallu rhannu gofod gyda thenantiaid, wedi gostwng, felly roedd llai o staff yn cynhyrchu gwastraff o'i gymharu â'r llynedd.
- Gostyngodd gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi 25%, o 0.4% y flwyddyn flaenorol i 0.3% o'r cyfanswm yn 2024-2025.
- Cafodd 84% o gyfanswm y gwastraff ei ailgylchu. Mae hyn yn ostyngiad bach o'r flwyddyn flaenorol, pan gafodd 86% ei ailgylchu.

## 3.3 Dŵr

Cafwyd cynnydd yn y defnydd o ddŵr i 3.1 m3 y pen wrth i swyddfeydd weld mwy o staff yn dod i mewn.


## 3.4 Perfformiad Amgylcheddol

Mae manylion allyriadau nwyon tŷ gwydr, y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu, a'r defnydd o ddŵr ar yr Ystad Weinyddol i'w gweld isod:

| Perfformiad Amgylcheddol | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2025 | Newid 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Allyriadau (t $CO_2$) | 3,500 | 3,000 | 2,890 | 2,275 | 2,132 | -6% |
| Trydan (t $CO_2$) | 1,896 | 1,500 | 1,542 | 1,210 | 1,287 | 6% |
| Nwy (t $CO_2$) | 1,604 | 1,400 | 1,348 | 1,065 | 845 | -21% |
| Cyfanswm gwastraff (tunelli) | 50 | 72 | 74 | 215 | 94 | -56% |
| Tirlenwi (% o'r cyfanswm) | 2 | 2 | 0.5 | 0.4 | 0.3 | -25% |
| Ailgylchu (% o'r cyfanswm) | 69 | 66 | 81 | 86 | 84 | -2% |
| Gwastraff i Ynni (% o'r cyfanswm) | 29 | 14 | 17.5 | 13.6 | 14.7 | 8% |
| Dŵr (metrau ciwbig/person/y flwyddyn) | 2.1 | 2.5 | 2.9 | 2.1 | 3.1 | 48% |

## 3.5 Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos – 6 safle uchaf

Mae'r mesur cyfartalog o fewn Band C, gyda chyfartaledd o 63.




**Perfformiad Amgylcheddol**

Mae cyfartaledd perfformiad yr ystad wedi gwella 11% ers yr adroddiad blaenorol. Y rheswm am hyn oedd gadael swyddfa Stryd Grosvenor yn Wrecsam a swyddfa Tŷ'r Afon ym Medwas. Er ein bod wedi symud i swyddfa arall yn Wrecsam, nid oes angen adroddiad DEC gan ei fod yn llai na 250$m_2$. Hefyd, nid oes angen adroddiadau DEC ar ein dwy swyddfa Canolfan Rheoli Traffig yng ngogledd a de Cymru gan nad ydynt yn cael eu diffinio fel adeiladau cyhoeddus.

Daeth y defnydd parhaus o fesurau covid mewn perthynas ag awyru (pan oedd awyr iach llawn a pheidio ag ailgylchredeg wedi cynyddu ein defnydd o ynni) i ben ym mis Chwefror 2024, ac mae hyn, ynghyd â mesurau ar gyfer optimeiddio perfformiad ynni, wedi cyfrannu at y gwelliant.

# 4. Edrych i'r Dyfodol

Mae adroddiad Cyflwr yr Ystad 2024-2025 yn edrych yn ôl ar flwyddyn pan oedd ein swyddfeydd yn cynnig cyfleoedd i gael cynifer â phosibl yn bresennol wrth i staff barhau i weithio o bell. Mae hyn yn cael sylw drwy ychwanegu rhagor o denantiaid sector cyhoeddus Cymru a sefydliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl. Mae'r broses hon yn cael ei hadolygu'n gyson wrth i'r ystad addasu ac esblygu. Mae mwy o'n gofodau'n cael eu defnyddio fel hybiau sector cyhoeddus, tra bo staff Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu model hybrid o weithio mewn swyddfeydd ac o bell. Mae opsiynau i annog mwy o staff i ddychwelyd i swyddfeydd yn cael eu hasesu a'u hadolygu'n gyson.

Arweiniodd cynnydd yn nifer y staff a ddaeth i'r swyddfeydd at gynnydd yn y ffigurau ar gyfer rhai meysydd perfformiad amgylcheddol, ond mae dangosyddion allweddol cyffredinol, fel allyriadau carbon, wedi gwella dros y flwyddyn. Mae rhaglen barhaus o optimeiddio ynni yn cael ei chynnal ar draws yr ystad. Mae'r cynnydd mewn ardaloedd tenantiaid yn ein galluogi i ddidynnu canrannau ar gyfer yr ardaloedd hynny o ran allyriadau a adroddir. Gostwng wnaeth y ganran o wastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi, yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn gwastraff a anfonwyd ar gyfer cynhyrchu pŵer ac ailgylchu.

Mae swyddfeydd yn parhau i gael eu tanddefnyddio ymhob rhan o'r ystad gyhoeddus, o ganlyniad i weithio hybrid a gweithio gartref. Er bod effeithlonrwydd Ystad Weinyddol Llywodraeth Cymru wedi gwella'n sylweddol ers 2015, yr her yn y blynyddoedd i ddod fydd sicrhau bod swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl ar gyfer staff a thenantiaid, ac er mwyn sicrhau bod swyddfeydd yn y lleoliadau cywir i alluogi staff i gyflawni ar ran Gweinidogion.

O ystyried yr ymrwymiad i ystad wasgaredig, bydd cyfleoedd i wneud rhagor o welliannau effeithlonrwydd yn y dyfodol yn dibynnu i raddau helaeth ar gynyddu'r defnydd o'r adeiladau cyfredol a gedwir. Byddwn yn gwneud hyn drwy fynd ati'n rhagweithiol i osod gofod sy'n cael ei danddefnyddio, i'n partneriaid sector cyhoeddus ac adlewyrchu'r llwyddiannau a gafwyd hyd yma ar draws yr ystad. Rydym wedi ymrwymo o hyd i sicrhau cydbwysedd call lle gall ein cydweithwyr weithio ar y cyd yn ein swyddfeydd Ystadau Gweinyddol, ond hefyd i sicrhau nad yw gofod yn cael ei adael yn wag lle gellir sicrhau budd i bwrs y wlad drwy rannu defnydd o'r ystad.

## Tudalen cyn yr Atodiadau

Mae'r rhestr ganlynol o Atodiadau yn dilyn fformat Adroddiadau Cyflwr yr Ystad blaenorol, ond gyda thabl newydd yn cael ei ychwanegu sy'n dangos data allweddol ar gyfer tenantiaid newydd a chyfredol y sector cyhoeddus yng Nghymru ar draws yr ystad. Mae pum swyddfa bellach yn cael eu rhannu â thenantiaid.

Dyma'r Atodiadau:

**Atodiad 1:** Data allweddol ar gyfer swyddfeydd yr Ystad Weinyddol ar 31 Mawrth 2025

**Atodiad 2:** Data allweddol ar gyfer swyddfeydd â thenantiaid ynddynt yn yr Ystad Weinyddol

**Atodiad 3:** Arbedion a gafwyd o eiddo a adawyd yn 2020-2025

**Atodiad 4:** Crynodeb o Berfformiad 2020-2025

**Atodiad 5:** Crynodeb o Berfformiad Eiddo Arbenigol yr Ystad

# Atodiad 1: Data allweddol ar gyfer swyddfeydd yr Ystad Weinyddol ar 31 Mawrth 2025

| Cyfeiriad | Cyfanswm perchnogaeth Llywodraeth Cymru NIA | Arwynebedd Mewnol Net metr sgwâr | Deiliadaeth | Rhent ac Ardrethi Blynyddol O/G | Ardrethi a Dalwyd 2025 | Rhent gan gynnwys TAW |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CP1 a CP2 Parc Cathays, Caerdydd | 37,696 | 37,696 | ○ | £6,933,023 | £1,409,241 | |
| Rhan Dau/Rhan 5, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd | Eiddo ar Lesddaliad | 1,792 | ■ | £9,263 | £0 | £0 |
| Tŷ Afon, Ffordd Bedwas, Bedwas, Caerffili | | 2,486 | ■ | £508,052 | £154,933 | £255,000 |
| Rhyd-y-Car, Merthyr Tudful | 6,097 | 6,097 | ○ | £1,690,491 | £232,280 | |
| Adeilad y Goron, Heol Picton, Caerfyrddin | 3,791 | 2,920 | ○ | £393,559 | £143,591 | |
| Havenshead BP, Aberdaugleddau | Eiddo ar Lesddaliad | 155 | ■ | £38,999 | £7,306 | £17,100 |
| Llys-y-Ddraig, Parc Busnes Penlle'r-gaer, Abertawe | 1,792 | 1,792 | ○ | £423,906 | £83,225 | |
| Rhodfa Padarn, Aberystwyth, SY23 3UR | 6,262 | 5,764 | ○ | £1,566,463 | £297,860 | |
| Neuadd y Sir Powys, Spa Road East, Llandrindod | Eiddo ar Lesddaliad | 886 | ■ | £171,047 | £22,166 | £57,500 |
| Tŷ Ladywell, Y Drenewydd | Eiddo ar Lesddaliad | 1,166 | ■ | £203,129 | £40,934 | £126,018 |
| Timekeepers Office, Caergybi | Eiddo ar Lesddaliad | 55 | ■ | £39,065 | £3,937 | £10,962 |
| Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno | 7105 | 6129 | ○ | £1,637,389 | £402,632 | |
| 1 Grosvenor Lodge, Ffordd Grosvenor, Wrecsam, LL11 1DB | Eiddo ar Lesddaliad | 318 | ■ | £92,677 | £12,224 | £36,750 |
| Ystafelloedd 5, 7 ac 8 Bloc A, Doc Fictoria, Caernarfon | Eiddo ar Lesddaliad | 738 | ■ | £152,536 | £4,193 | £76,200 |
| Llawr gwaelod, Uned 2, Oak House, Parc Busnes Celtic Springs, Casnewydd | Eiddo ar Lesddaliad | 448 | ■ | £77,261 | £28,344 | £66,000 |

○ Rhydd-ddaliad ■ Lesddaliad

# Atodiad 2: Data allweddol ar gyfer swyddfeydd â thenantiaid ynddynt yn yr Ystad Weinyddol

| Cyfeiriad | Arwynebedd Mewnol Net Holl Berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Arwynebedd Mewnol Net metr sgwâr | Gosod Gofod | Rhent Tybiannol | *Incwm Blynyddol ac eithrio Rhent ac Ardrethi | Incwm Ardrethi a Gynhyrchwyd 2025 | Incwm Rhent a Gynhyrchwyd gan gynnwys TAW |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CP1 a CP2 Parc Cathays Caerdydd | 37,696 | 37,696 | 4,161 | £3,430,000 | £806,673 | £143,949 | £375,828 |
| Rhyd-y-car Merthyr Tudful | 6,097 | 6,097 | 81 | £825,000 | £13,665 | £2,857 | £10,998 |
| Adeilad y Goron, Heol Picton, Caerfyrddin | 3,791 | 3,791 | 0 | £263,160 | £0 | £0 | £0 |
| Llys-y-Ddraig, Parc Busnes Penlle’r-gaer, Abertawe | 1,792 | 1,792 | 43 | £148,180 | £6,578 | £3,166 | £3,569 |
| Rhodfa Padarn, Aberystwyth, SY23 3UR | 6,262 | 6,262 | 835 | £544,325 | £110,470 | £22,824 | £55,781 |
| Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno | 7,105 | 7,105 | 1,285 | £541,497 | £194,310 | £46,912 | £82,599 |

***Mae’r Incwm Blynyddol yn deillio o dâl gwasanaeth a godir ar bob tenant ar sail pro rata o’r gofod a ddefnyddir tuag at gyfanswm costau rhedeg yr adeilad**

# Atodiad 3: Arbedion a gafwyd o eiddo a adawyd 2020-2025

| Cyfeiriad | Dyddiad gadael | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2020-21 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2021-22 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2022-23 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2023-24 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2024-25 | Cyfanswm 5 mlynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tŷ Wynchway, Hwlffordd | 01/02/2016 | £131,168 | £131,168 | £131,168 | £131,168 | £131,168 | £655,840 |
| Ffordd Arran, Dolgellau | 31/03/2016 | £7,073 | £7,073 | £7,073 | £7,073 | £7,073 | £35,365 |
| Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth | 31/03/2016 | £29,094 | £29,094 | £29,094 | £29,094 | £29,094 | £145,470 |
| Tŷ Aberhonddu, Caerffili | 31/05/2017 | £127,606 | £127,606 | £127,606 | £127,606 | £127,606 | £638,030 |
| Tŷ'r Llyn, Abertawe | 23/06/2017 | £481,245 | £481,245 | £481,245 | £481,245 | £481,245 | £2,406,225 |
| Yr Hen Ficerdy, Caergybi | 12/01/2018 | £33,721 | £33,721 | £33,721 | £33,721 | £33,721 | £168,605 |
| Hill House, Heol Picton Caerfyrddin | 01/04/2018 | £139,078 | £139,078 | £139,078 | £139,078 | £139,078 | £695,390 |
| Parc Bocam, Pen-y-bont ar Ogwr | 22/06/2018 | £119,770 | £119,770 | £119,770 | £119,770 | £119,770 | £598,850 |
| Adeiladau'r Goron, Penrallt Uchaf, Caernarfon | 27/07/2018 | £356,666 | £356,666 | £356,666 | £356,666 | £256,666 | £1,783,330 |
| Tŷ Clarence, Casnewydd | 30/05/2019 | £94,999 | £94,999 | £94,999 | £94,999 | £94,999 | £474,995 |
| Tŷ Southgate, Caerdydd | 19/09/2019 | £163,766 | £163,766 | £163,766 | £163,766 | £163,766 | £818,830 |

| Cyfeiriad | Dyddiad gadael | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2020-21 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2021-22 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2022-23 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2023-24 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2024-25 | Cyfanswm 5 mlynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 33 Heol Casnewydd, Caerdydd | 31/03/2020 | £4,340 | £4,340 | £4,340 | £4,340 | £4,340 | £21,700 |
| Plas Caeriw | 12/02/2021 | £72,318 | £561,619 | £561,619 | £561,619 | £561,619 | £2,318,794 |
| Uned 22 I.E Llandochau, Heol Penarth, Caerdydd | 23/03/2021 | £2,588 | £118,089 | £118,089 | £118,089 | £118,089 | £474,944 |
| Adeiladau'r Goron, Spa Road East, Llandrindod | 31/07/2021 | - | £344,938. | £518,116.75 | £518,116.75 | £518,116.75 | £1,899,288 |
| Canolfan QED, Trefforest | 30/09/2022 | - | - | £328,098 | £328,098 | £328,098 | £984,294 |
| 1 Grosvenor Lodge, Ffordd Grosvenor, Wrecsam | 26/01/2024 | - | - | - | £40,015 | £40,015 | £80,030 |
| Tŷ Afon, Ffordd Bedwas, Bedwas, Caerffili | 28/10/2024 | - | - | - | - | £917,984 | £917,984 |
| Cyfanswm Arbedion | | £1,763,432 | £2,713,172 | £3,214,449 | £3,254,464 | £4,172,448 | £14,199,980 |

DS Mae Llywodraeth Cymru wedi caffael swyddfa newydd ar les yn Wrecsam yn lle Grosvenor Lodge

# Atodiad 4: Crynodeb o Berfformiad 2020-2025

Mae'r rhain yn gostau a ysgwyddir gan yr Ystad Weinyddol

| | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2025 | Newid (2024-25) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflwr yr Ystad** | | | | | | |
| **Cyfanswm Arwynebedd yr Ystad metr sgwâr** | 69,850 | 68,669 | 68,669 | 68,669 | 68,669, | 0.00% |
| **Nifer yr Eiddo** | 15 | 15 | 15 | 15 | 15 | 0.00% |
| **Cost yr Ystad £** | £18.413m | £18.808m | £18.951m | £19.08m (Adroddiad 2024 £24m)* | £18.880m | -1% |
| **Rhent £** | £6.507m | £6.452m | £6.481m | £6.574m | £6.758m | 3% |
| **Cyfraddau £** | £2.573m | £2.561m | £2.561m | £2.584m | £2.990m | 16% |
| **Arall £** | £9.333m | £9.796m | £9.910m | £14.389m | £9.132m | -37% |
| **Effeithlonrwydd** | | | | | | |
| **Effeithlonrwydd Cost £ am bob metr sgwâr** | £263.61 | £273.90 | £275.98 | £358.06 | £274.95 | -23% |
| **Rhent £ am bob metr sgwâr** | £93.15 | £93.96 | £94.38 | £107.96 | £98.42 | -9% |
| **Ardrethi £ am bob metr sgwâr** | £36.84 | £37.29 | £37.29 | £37.44 | £43.55 | 16% |
| **Arall £ am bob metr sgwâr** | £133.62 | £142.65 | £144.32 | £233.99 | £132.98 | -43% |
| **Perfformiad Amgylcheddol** | | | | | | |
| **Cyfanswm Allyriadau (t $CO_2$)** | 3,500 | 3,000 | 2,890 | 2,275 | 2,132 | -6% |
| **Trydan (t $CO_2$)** | 1,896 | 1,500 | 1,542 | 1,210 | 1,287 | 6% |

| | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2025 | Newid (2024-25) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nwy (t $CO_2$)** | 1,604 | 1,400 | 1,348 | 1,065 | 845 | -21% |
| **Cyfanswm gwastraff (Tunelli)** | 50 | 72 | 74 | 215 | 94 | -56% |
| **Tirlenwi (% o'r cyfanswm)** | 2 | 2 | 0.5 | 0.4 | 0.3 | -25% |
| **Ailgylchu* (% o'r cyfanswm)** | 69 | 66 | 81 | 86 | 84 | -2% |
| **Gwastraff i Ynni (% o'r cyfanswm)** | 29 | 14 | 18 | 13.6 | 14.7 | 8% |
| **Dŵr (metrau ciwbig/person/y flwyddyn)** | 2.1 | 2.5 | 2.9 | 2.1 | 3.1 | 48% |

*Roedd adroddiad 2024 yn cynnwys dyraniad ar gyfer rhent tybiannol ar draws yr ystad nad oedd blynyddoedd blaenorol wedi'u cynnwys. Oherwydd bod strwythur yr ystad yn newid gyda Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel landlord, cafodd y gost hon ei chynnwys yn 2024 ond mae bellach wedi'i dyrannu a'i chynnwys yn nhabl Atodiad 2.

# Atodiad 5: Crynodeb o Berfformiad Eiddo Arbenigol yr Ystad

| Cyfeiriad | Rheswm dros eithrio | Arwynebedd Llawr | Cyfanswm Costau Blynyddol 2020-21 | Cyfanswm Costau Blynyddol 2021-22 | Cyfanswm Costau Blynyddol 2022-23 | Cyfanswm Costau Blynyddol 2023-24 | Cyfanswm Costau Blynyddol 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25 Victoria Street, Llundain | Swyddfa y tu allan i Gymru | Arwynebedd mewnol net 304 metr sgwâr | £371,782 | £445,258 | £435,543 | £318,455 | £465,837 |
| Cyfleuster Arbenigol, Cil-y-coed | Defnydd Arbenigol | Amh | £669,404 | £602,578 | £718,280 | £738,840 | £738,839 |
| Canolfan Rheoli Traffig, Coryton, Caerdydd | Defnydd Arbenigol (traffig) | Arwynebedd mewnol net 763 metr sgwâr | £176,786 | £197,856 | £170,668 | £289,956 | £234,554 |
| Canolfan Rheoli Traffig, Parc Busnes Morfa, Ffordd Sam Pari, Morfa | Defnydd Arbenigol (traffig) | Arwynebedd mewnol net 1,128 metr sgwâr | £133,418 | £174,659 | £198,233 | £268,687 | £226,495 |
| Plot 233, Pafiliwn Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanfair-ym-Muallt | Defnydd Arbenigol (Pafiliwn) | Arwynebedd mewnol net 220 metr sgwâr | £45,446 | £45,808 | £69,847 | £70,656 | £62,668 |
| Adeiladau Arbenigol Materion Gwledig, Sir Gaerfyrddin | Defnydd Arbenigol | Arwynebedd mewnol net 452 metr sgwâr | £35,091 | £35,998 | £37,807 | £38,069 | £39,934 |